LC347

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**The National Assembly for Wales**

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Cynrychiolwyr Rhiant-Lywodraethwyr a Chynrychiolwyr Eglwysig (Cymru) 2001**

**Y Cefndir**

Mae Adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnwys darpariaeth yn eu “trefniadau gweithredol”ar gyfer pwyllgorau “trosolygu a chraffu”.

Pan fo awdurdodau lleol yn mabwysiadu “trefniadau amgen” yn hytrach na “threfniadau gweithrediaeth” mae’r rheoliadau sy’n nodi’r trefniadau amgen yn darparu ar gyfer penodi pwyllgor i adolygu’r penderfyniadau a wneir, neu gamau eraill a gymerwyd, neu i graffu arnynt, mewn perthynas â chyflawni swyddogaethau’r awdurdod.

Mae’r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth i gynnwys cynrychiolwyr rhiant-lywodraethwyr ysgolion a gynhelir yn y pwyllgorau uchod.  Maent hefyd yn gwneud darpariaeth, mewn perthynas ag ysgolion ag iddynt gymeriad crefyddol, i benodi cynrychiolwyr eglwysig i bwyllgorau o’r fath a sefydlwyd o dan “drefniadau amgen”.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi’u nodi fel materion y mae angen i’r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

## Sylwadau Cyffredinol

### Y Testun Cymraeg

Mae’r teitl fel y mae yn y penawdau yn defnyddio’r ffurf “Rhiant – Lywodraethwyr” ond l fechan a ddefnyddir ar gyfer y ffurf yn rheoliadau 1(1), 2 (“Rheoliadau 1999”) a 14(1).

Mae angen atalnod llawn ar ddiwedd paragraff cyntaf y Nodyn Esboniadol.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

30 Hydref 2001